



## **Cyngor Sir Ddinbych**

### **Cynllun Iaith Gymraeg/ Safonau Iaith Gymraeg**

### **Adroddiad Monitro Blynyddol 2015-2016**

## 1. Cyflwyniad

Tîm Gweithredol y Cyngor sydd â chyfrifoldeb strategol dros y Gymraeg yn Sir Ddinbych. Y Cyfarwyddwr Arweiniol yw Nicola Stubbins, gyda'r Cynghorydd Huw Jones fel yr Aelod Cabinet a chyfrifoldeb dros y Gymraeg.

Y rheolwr Cyfathrebu sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros weinyddu'r Safonau Iaith Gymraeg, gyda rôl arall wedi ei chreu o fewn yr awdurdod fel swyddog cyswllt gyda'r Uwch Dim Rheoli.

Mae datblygiadau yn ymwneud a'r Gymraeg yn cael ei fonitro gan Grŵp Fforwm Dwyieithrwydd ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i gryfhau rôl y grŵp, gan gynyddu ei bwerau i allu cyflwyno argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn.

Mae prif sylw'r Cyngor yn ystod 015/16 wedi bod ar baratoi ar gyfer cyflwyniad y Safonau Iaith. Mae cyfres o negeseuon cyfathrebu wedi cael eu cyflwyno i staff, trefnwyd sesiwn arbennig ar gyfer cyngorwyr parthed y Safonau ac mae'r swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu'r Gymraeg wedi cyflwyno sesiynau gyda nifer fawr o dimau rheoli o fewn y Cyngor, yn cynnwys yr Uwch Dim Rheoli, y Cabinet a'r Cyngor Staff..

Mae'r Prif Weithredwr hefyd wedi recordio negeseuon fide oar gyfer y staff, er mwyn amlygu'r pwysigrwydd o gydymffurfio a'r safonau iaith.

Tra bod y Cyngor eisoes yn cydymffurfio a nifer fawr o'r Safonau fel rhan o'I Gynllun Iaith Flaenorol, mae'r Safonau wedi cynnig cyfle i ni atgyfnerthu 'r anghenion a sicrhau cydymffurfiaeth. Yn ogystal â'r Safonau, mae'r Cyngor wedi parhau i ymateb yn bositif i'r Fframwaith Mwy na Geiriau a'r Strategaeth Cymraeg Mewn Addysg (gweler diweddariad ar y meysydd gwaith yn hwyrach yn y ddogfen).

## **2. Datblygiadau eraill yn ystod y flwyddyn:**

**Sesiynau galw i mewn ar gyfer staff** - Mae'r Cyngor wedi cynnal cyfres o sesiynau galw i mewn ar gyfer staff a oedd a chwestiynau parthed cyflwyniad y Safonau Iaith.

**Laniards Gweithio'n Gymraeg** - Mae holl aelodau staff sydd yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu ddysgwyr wedi cael eu cyflwyno i staff, fel eu bod yn cael eu hadnabod yn syth fel pobl sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg.

**Llofnodion e-byst:** Mae staff wedi derbyn templedi er mwyn iddynt ddarparu llofnodion e-bost yn ddwyieithog.

**Cysill a Microsoft Office yn Gymraeg:** Mae pob Siaradwr Cymraeg a dysgwyr wedi derbyn meddalwedd Cysill are u cyfrifiaduron. Mae'r Cyngor hefyd wedi paratoi canllawiau ar gyfer staff ar ddefnydd Microsoft Office trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Pencampwyr Iaith Gymraeg:** Mae pob gwasanaeth wedi dethol Pencampwyr Iaith a'u rôl yw sicrhau cydymffurfiaeth a'r Safonau Iaith ac i adrodd yn ôl am unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth.

Mae posteri wedi cael eu darparu ar gyfer prif adeiladau a derbynfeydd, er mwyn hysbysu staff o bwy yw eu pencampwyr iaith. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn chwarterol.

Mae Cylch Gorchwyl wedi cael ei gytuno ar gyfer y Pencampwyr ac maent yn rhoi cymorth i gynnal arolygon o ddefnydd yr iaith yn y gweithle ac adnabod cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith.

**Ateb y ffôn:** Mae'r Cyngor wedi darparu templedi i staff gyda chanllawiau ar i gyfarch yn ddwyieithog ar y ffon.

**Rhyngrwyd** - Mae'r dewislenni ar y rhyngrwyd rwan yn ddwyieithog.

**Casglu gwybodaeth ieithyddol am staff** - Mae'r Cyngor wedi cynnal arolwg i asesu sgiliau ieithyddol eu staff. Mae rhagor o gyfathrebu wedi cael ei anfon i staff yn eu hannog i lenwi'r holiadur, fel bod y Cyngor yn derbyn y darlun cliriach posib o sgiliau ieithyddol y gweithlu.

**Prif linell ffon y Cyngor** - Mae'r Cyngor wedi cyflwyno system lle gall pobl ddewis iaith wrth gysylltu'r Cyngor drwy'r brif linell ffôn.

Nifer y galwadau i'r llinell Saesneg yn 2015/16: 78701

Nifer y galwadau i'r llinell Gymraeg yn 2015/16 4743

**Fforwm Iaith y Sir** Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan flaengar yn y Fforwm Iaith, drwy gadeirio cyfarfod a darparu diweddariadau cyson i weddill y grŵp.

**Gwobr Rhagoriaeth Staff** - Mi gyflwynwyd gwobr arbennig yn y seremoni eleni er mwyn cydnabod ymrwymiad unigolyn neu grŵp tuag at ddatblygiad yr iaith.

**Gwefan:** Yn ystod y flwyddyn roedd y Cyngor wrthi'n hyrwyddo defnydd o'r wefan iaith Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn roedd cyfanswm o 1,031,411 hits ar y wefan - 1,006,868 yn Saesneg, 23, 613 hits yn Gymraeg.

**Cyfyngau Cymdeithasol;** Roedd 3,167 o ddilynwyr ar gyfrif Facebook ar Facebook, 187 yn Gymraeg. Roedd gan y Cyngor 8,425 o ddilynwyr ar Twitter, 572 yn Gymraeg.

### **3.Argymhellion ar gyfer gwelliant**

**Safonau iaith newydd** - Bydd prif sylw'r Cyngor ar gyflwyno gweddill y safonau, yn benodol y rhai creu polisiau.

**Strategaeth iaith Newydd** - Mae'r Cyngor yn y broses o lunio strategaeth ar sut y mae'n bwriadu cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor, unwaith ei bod wedi cael ei gadarnhau drwy'r broses ddemocrataidd.

**Diwylliant y Cyngor** - Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi datganiad yn amlinellu sut y mae'n bwriadu cryfhau diwylliant dwyieithog y Cyngor. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn ystod 2016 i gyflawni hyn, yn cynnwys hyrwyddo cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

**Ymarferiad Siopwr Dirgel** - Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Menter Iaith Sir Ddinbych a dros y chwe mis nesaf, bydd ymarferiad 'siopwr dirgel' yn cael ei drefnu, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth staff a'r safonau iaith.

**Casglu lefelu sgiliau ieithyddol staff** - Mae angen i hwn fod yn broses blynyddol, gyda gwybodaeth yn cael ei fwydo yn ôl i reolwyr, er mwyn iddynt gynllunio prosesau gweithle.

**Gwirio cydymffurfiaeth mewn Heriau Gwasanaethau.** - Bydd y Cyngor yn cyflwyno sesiwn ar gydymffurfiaeth gyda'r broses herio gwasanaethau blynyddol lle bydd gofyn i bob gwasanaeth gyflwyno gwybodaeth ar berfformiad.

## Dangosyddion iaith Gymraeg

Isod mae ymatebion i'r dangosyddion iaith Gymraeg.

<p>Nifer a % y swyddi yn y brif dderbynfa, yn y ganolfan alwadau neu Siop Un Alwad sy'n swyddi Cymraeg hanfodol a chanran y swyddi rheiny a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg.</p>	<p>Mae 7 staff yn gweithio yn y Ganolfan Alwadau/ brif dderbynfa'r Cyngor – 4 ohonynt yn siarad Cymraeg. Mae 66% o'r staff yn y Siopau Un Alwad yn siarad Cymraeg.</p>
<p>Canran y sampl o gyntundebau a chaiff eu monitro sy'n cydymffurfio a;r cynllun iaith.</p>	<p>Mae hi'n fater l'r gwasnaethau eu hunain I sicrhau bod cytundebau yn cydymffurfio â chynllun iaith y Cyngor. Mae 100% o'r cytundebau wedi cael eu gwirio, yn unol â chanllawiau corfforaethol.</p>
<p>Nifer y cwynion a dderbyniwyd parthed cyflwyno'r cynllun iaith a % y cwynion a ddeliwyd a hwy yn unol a safonau corfforaethol y Cyngor.</p>	<p>Cyflwynwyd pump cwyn yn ystod y flwyddyn parthed yr iaith Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyniad yn uniaith Saesneg yn Ysgol Glan Clwyd Derbyniwd y gwynCyflwynwyd ymddiheuriad. Roedd gweddill y cyflwyniadau yn Gymraeg.</li> <li>• Dau rif ffon wedi cael eu hail-gyfeirio at linellau uniaith Saesneg – Mi dderbyniwyd y gwyn ac fe recordiwyd neges ffon ddwyieithog ar y ddwy linell.</li> <li>• Dogfennau PDF yn uniaith Saesneg ar wefan y Cyngor. Mi dderbyniwyd y cais ac mi dynnwyd y dogfennau oddi ar wefan y Cyngor.</li> <li>• Arwyddion di-Gymraeg – Mi dderbyniwyd y gwyn ac mi gafodd yr arwyddion eu cywiro.</li> <li>• Rhybudd Cosb Benodol yn uniaith Saesneg. Mi dderbyniwyd y gwyn. Rhyddhaswyd y Gosb Benodol yn Gymraeg.</li> </ul> <p>Bu I bob un o'r cwynion (100%) gael eu trin yn unol a terfynau amser corfforaethol.</p>
<p>Nifer y staff (Cymry Cymraeg a dysgwyr) sydd wedi derbyn hyfforddinaat yn yr iaith Gymraeg hyd at lefel o fedusrwydd.</p>	<p>13 unigolyn ym Mlwyddyn 1 11 unigolyn ym mlwyddyn 3 A 9 unigolyn ym mlwyddyn 3B 3unigolyn yn dilyn y cwrs Uwch – a ddarparwyd gan Brifysgol Bangor.</p> <p>Mewn cyfanswm, bu 42 o unigolion yn dilyn cyrsiau ffurfiol yn 2015/16.</p>
<p>Nifer a chanran y staff yng ngwasanaethau'r Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg</p>	<p>Gweler y wybodaeth yn Atodiad 1.</p>



## Staff Linguistic Skills

Below is the information currently held by the Council. This information is fed back to services, to allow Heads of Service to progress with their Workforce Planning.

Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?	Dim o gwbl	Ychydig	Moderately	Moderately - a little	Fairly fluent	Fluently - quite well	Fluent	Not Known	Grand Total
Prentisiaid				1			1	3	5
Gwelliant Busnes a Moderneiddio	26	21	6	9	5	6	7	16	96
Gwasanaeth Cefnogaeth Cymunedol	246	39	11	60	5	87	9	51	508
Cyfarwyddwyr Corfforaethol		2				1			3
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	9	9	2	11	1	30	6	10	78
Addysg a Gwasanaethau Plant	97	26	5	51	6	36	7	47	275
Tai., Cyfleusterau ac Eiddo	150	43	10	84	7	49	10	324	677
Cyllid	17	11	2	6	1	8	2	3	50
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	85	16	4	51	1	30	2	170	359
Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd	18	17	2	4	2	14	9	8	74
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	37	15	9	24	4	9	14	24	136
Ysgolion	306	24	17	381	9	319	9	1062	2127
Prif Weithredwr a CP y Prif Weithredwr					1			1	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>991</b>	<b>223</b>	<b>68</b>	<b>682</b>	<b>42</b>	<b>589</b>	<b>76</b>	<b>1719</b>	<b>4390</b>

**Fframwaith Mwy Na Geiriau**

**“Mwy Na Geiriau - Adroddiad Cynnydd (Blwyddyn 3)**

Yn Sir Ddinbych, rydym wedi parhau i fod yn rhagweithiol parthed sut y gall bobl gyrchu ein gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu blwyddyn 3 yn cynnwys:

**Cynllunio a chyflwyno gwasanaeth (Amcan 1)**

- Mae'r Pwynt Cyswllt Cyntaf wedi recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg ac yn sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn amlwg wrth i bobl gysylltu am y tro cyntaf. (e.e dewis iaith ar y ffôn).
- Mae gwell prosesau mewn lle er mwyn adnabod pobl ar ein system PARIS sy'n siarad Cymraeg.
- Mae gennym holiadur sy'n monitro cynnydd gyda'n profiad cwsmeriaid, ac mae'r holiadur yn cynnwys cwestiwn a oedd pobl wedi derbyn gwasanaeth yn eu dewis iaith.
- Sicrhau bod ffurflenni, pamffledi a deunydd hyrwyddo yn ddwyieithog.

**Comisiynau a'r Cynnig Rhagweithiol (Amcan 2)**

- Mae'r adran Gaffael yn dilyn canllawiau ar gomisiynu gwasanaethau ac wedi cynnal proffil cymunedol a defnyddio'r wybodaeth fel rhan o gyflwyno a pharatoi gwasanaethau comisiynu
- Mae'r broses monitro cytundebau yn sicrhau fod gan ddarparwyr polisi iaith Gymraeg a bod gwasanaethau ar gael drwy'r Gymraeg lle bo'n briodol.
- Mi fu'r Pencampwyr Iaith fynychu cyfarfodydd er mwyn hysbysu'r Cynnig Rhagweithiol.
- Mae cyflwyniad ar y Cynnig Rhagweithiol wedi cael ei gylchredeg i staff o yn yr adran.

**Datblygu'r Gweithlu (Amcan 3)**

- Mae eitemau yn aml yn cael eu cynnwys am yr iaith Gymraeg mewn cylchlythyrau a negeseuon cyfathrebu, yn cynnwys gwybodaeth am Ddydd Gŵyl Dewi, Dydd Miwsig, cyrsiau ac adnoddau cefnogol sydd ar gael.
- Mae lefelau siaradwyr Cymraeg yn y sector annibynnol yn cael ei fonitro bob blwyddyn.
- Cynyddu hyder staff i siarad Cymraeg o fewn yr adran - drwy ddarparu sustem 'bydi'. Yn ogystal â hyn, mae "Siop Siarad â Phaned" wedi cael ei gyflwyno ar amseroedd cinio er mwyn cynnig cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr rhwng gwersi.

**Arweinyddiaeth (Amcan 4)**

- Mae Grŵp Strategol y Gymraeg yn parhau i fonitro a chyfeirio cyflwyniad y blaenoriaethau iaith Gymraeg. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr dros Ofal Cymdeithasol. Mae Mwy na Geiriau wedi cael ei amlygu fel blaenoriaeth yng nghynlluniau'r Pennaeth Gwasanaeth.



- Mae enghreifftiau o arfer da yn cael ei gylchredeg i reolwyr gan Bencampwr yr Iaith Gymraeg
- Mae datganiad iaith Gymraeg wedi cael ei baratoi ac mae cynnydd gyda chyflwyniad y fframwaith Mwy Na Geiriau wedi cael ei ddiweddarau fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol.

### **Addysg, Hyfforddiant a Datblygiad (Amcan 5)**

- Mae hyfforddiant yn cael ei gynnig i staff o fewn yr adran a'r sector gyfan parthed y Fframwaith Mwy na Geiriau, sesiynau ymwybyddiaeth iaith a'r Cynnig Rhagweithiol (mae'r wybodaeth hwn hefyd yn cael ei gynnwys yn y sesiwn ar gyfer staff newydd ac i fyfyrwyr Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Hyfforddiant I hybu hyder staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac mae 4 lle wedi cael ei gynnig ar gyfer cwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn.
- Mae disgwyliad ar holl hyfforddwyr mewnol ac allanol i hyrwyddo Mwy Na Geiriau yn y cyrsiau hyfforddiant perthnasol.

### Diweddariad ar t Cynllun Gwaith Grwp Strategol y Gymraeg Mewn Addysg

Mae'r rhan helaeth o'r amcanion wedi cael eu cwblhau neu o fewn cyrraedd y targed.

Amcan	Targed	Cynnydd
Amcan 2.1: Cynyddu canran y dysgwyr ym mlwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (Iaith Gyntaf)	Cynyddu'r ganran i 21% erbyn 2015/16 a'i gadw ar 21% neu uwch wedi hynny.	21.3%
Amcan3.1: Cynyddu canran y ddysgwyr 14-16 oed sy'n astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg	Cynyddu canran y dysgwyr ym mlwyddyn 11 sy'n astudio 5 eu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg i 18% erbyn 2015 (cyrhaeddwyd 17.9% yn 2013)	18.5%
Amcan 5.2: Gwella'r ddarpariaeth a safonau yn y Gymraeg Iaith Gyntaf.	Cyfnod Allweddol 2 – 90% i gyrraedd o leiaf lefel 4 yn yr asesiadau athrawon yn Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 erbyn 2017.	90.6%
Amcan 5.4: Gwella'r ddarpariaeth a safonau mewn Cymraeg Ail Iaith.	Cynyddu canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf lefel 4 yn yr asesiadau athrawon ar gyfer Cymraeg ail iaith, gyda tharged o 75% erbyn 2017.	76.4%